AMDDIFFYN EICH PENSIWN

MAE PENSIYNAU SECTOR CYHOEDDUS MEWN PERYGL

1. Gallai eich cyfraniadau gynyddu 53% neu fwy o fewn y 3 blynedd nesaf

Bydd hyn yn arwain at leihad sylweddol yn eich incwm, sydd eisoes wedi cael ei rewi, heb unrhyw ddyfarniad cyflog cenedlaethol tan fis Medi 2013.

2. Gallai eich oedran pensiwn godi

Mae athrawon newydd eisoes yn gorfod gweithio hyd 65, ond yn y dyfodol, gallai pob athro ac athrawes fod yn gweithio hyd 66, 67 neu'n hŷn fyth cyn y gallan nhw hawlio'u pensiwn llawn.

3. Mae'r llywodraeth eisoes wedi newid y drefn o fynegeio pensiynau – a fydd yn costio degau o filoedd ichi

Boed chi'n bensiynwr ar hyn o bryd neu yn y dyfodol, o fis Ebrill yma ymlaen byddwch yn derbyn pensiwn galwedigaethol a gwladol a fydd yn cynyddu llai nag y bydd prisiau. Felly, fe fyddwch chi'n cael llai am eich arian trwy gydol eich ymddeoliad.

4. Mae ar y llywodraeth eisiau cael gwared ar gynlluniau cyflog terfynol

Mae Hutton wedi cynnig symud at bensiynau 'cyfartaledd gyrfa' ar gyfer y dyfodol. Arweinwyr ieuengach fydd yn cael eu taro galetaf, gan leihau eu pensiynau disgwyliedig o filoedd o bunnoedd bob blwyddyn.

CEFNOGWCH NAHT WRTH IDDO YMGYRCHU DROS EICH TÂL A'CH PENSIYNAU

- **Mae'r cymhelliad dros y newidiadau yma'n syml: lleihau dyledion**
- **Nhw sy'n gwneud y llanast, chi sy'n talu amdano**
- **Does DIM tystiolaeth fod Cynlluniau Pensiynau Athrawon yn anfforddiadwy nac yn or-hael**
- **Ar adeg o dargedau'n codi a mwy o sialensiau, mae hwn yn DORIAD CYFLOG**

NAHT
CYMRU
Y Gymdeithas ar gyfer holl Arweinwyr Ysgol
The Association for all School Leaders